Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

# CYNLLUN TEITHIO CYNALIADWY 2025-2030

**Sefydliad sy'n barod ar gyfer y dyfodol lle mae cynaliadwyedd wedi'i ymgorffori ar draws addysg, ymchwil, gweithrediadau ac arfer dyddiol, gan anrhydeddu ein cyfrifoldeb i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol.**

Strategaeth Cynaliadwyedd Amgylcheddol Grŵp PCYDDS

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg | This document is available in Welsh and English**


## CYNNWYS

CYNNWYS ..... 2
1. Cyflwyniad ..... 3
2. Alinio â Strategaeth Cynaliadwyedd Amgylcheddol Grŵp PCYDDS 2025-2030 ..... 4
3. Adeiladu ar lwyddiannau'r gorffennol ..... 5
4. Gosod y cyd-destun (arolwg teithio 2024 a 2025) ..... 6
5. Nodau ..... 7
6. Cyflawni amcanion ..... 8
Amcan 1: Darparu dewisiadau amgen deniadol yn lle teithiau car gyrrwr yn unig. ..... 8
Amcan 2: Gwella llesiant staff a myfyrwyr trwy opsiynau teithio llesol diogel a chyfleus. ..... 8
Amcan 3: Lleihau effaith teithio busnes. ..... 9
Amcan 4: Parhau i gael staff a myfyrwyr i ystyried yr hierarchaeth deithio ar gyfer teithiau ..... 10
7. Targedau CAMPUS ..... 11
8. Monitro ac Adrodd ..... 12
9. Cysylltiadau â pholisïau a gweithdrefnau eraill ..... 13
*Cymeradwyo* ..... **Error! Bookmark not defined.**

## 1. Cyflwyniad

Mae'r dystiolaeth am angen brys i fynd i'r afael â newid hinsawdd bellach yn ddiamheuol. Cyfeiriodd ysgrifennydd cyffredinol y Cenhedloedd Unedig at adroddiad y Panel Rhynglywodraethol ar Newid Hinsawdd (IPCC) ym mis Awst 2021 fel 'cod coch i ddynoliaeth', a dywedodd cyd-gadeirydd gweithgor yr IPCC ym mis Chwefror 2022 fod "y dystiolaeth wyddonol yn ddiamwys: mae newid hinsawdd yn fygythiad i lesiant dynol ac iechyd y blaned. Bydd unrhyw oedi pellach mewn cydweithredu byd-eang yn golygu y byddwn yn colli’r ffenestr fach, sy’n cau’n gyflym, i sicrhau dyfodol y gellir byw ynddo.[1]"

Mae cyrff cyhoeddus yng Nghymru wedi cael y dasg o gyrraedd carbon sero net erbyn 2030. Er mwyn cefnogi uchelgais o'r fath, rhaid i sefydliadau gydweithio â phartneriaid lleol a rhanbarthol i gyflawni camau gweithredu mewn ffordd effeithlon, gynaliadwy. Fel ffordd o fynd i'r afael ag effaith PCYDDS ar hinsawdd, mae angen i'r brifysgol fynd i'r afael â'r swm mawr o allyriadau cwmpas 3 a achosir gan deithio a thrafnidiaeth.







Mae ein Cynllun Teithio Cynaliadwy wedi'i ysgrifennu i gefnogi symudiad pobl a gwasanaethau ar draws ein sefydliadau tra'n sicrhau bod ein hamgylchedd uniongyrchol, lleol a byd-eang yn cael yr ystyriaeth uchaf. Mae'n cyd-fynd â Blaenoriaeth Strategol 1 Strategaeth Cynaliadwyedd Amgylcheddol Grŵp PCYDDS, Lleihau Carbon.

Mae'r Cynllun Teithio Cynaliadwy a'r camau gweithredu cysylltiedig hefyd yn cefnogi cyflawni Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig, yn benodol nod 9, 11 a 13.




[1] PR_WGII_AR6_english.pdf

## 2. Alinio â Strategaeth Cynaliadwyedd Amgylcheddol Grŵp PCYDDS 2025-2030

Mae'r Cynllun Teithio Cynaliadwy hwn yn ddogfen gyflawni allweddol sy'n cefnogi Strategaeth Cynaliadwyedd Amgylcheddol Grŵp PCYDDS 2025–2030, sy'n trosi ymrwymiadau strategol y Brifysgol yn gamau gweithredu wedi'u targedu i leihau allyriadau sy'n gysylltiedig â theithio a thrafnidiaeth.

Mae teithio a thrafnidiaeth yn cynrychioli cyfran sylweddol o allyriadau Cwmpas 3 y Brifysgol, ac felly'n chwarae rhan hanfodol wrth gyflawni uchelgeisiau sero net PCYDDS. Mae'r Cynllun hwn yn cefnogi cyflawni pileri craidd y Strategaeth:

**EIN POBL:** Trwy annog a galluogi ymddygiadau teithio cynaliadwy, mae'r Cynllun hwn yn cefnogi iechyd a llesiant staff a myfyrwyr drwy fwy o gyfleoedd ar gyfer teithio llesol. Mae hefyd yn hyrwyddo ymwybyddiaeth o ddewisiadau teithio cynaliadwy ac yn darparu cyfleoedd i unigolion gyfrannu at nodau lleihau carbon y Brifysgol.

**EIN DIBEN:** Trwy leihau allyriadau o gymudo, teithio busnes a gweithrediadau fflyd, mae'r Cynllun hwn yn cefnogi ymrwymiad y Brifysgol i gyfrifoldeb amgylcheddol a gweithredu ar newid hinsawdd, gan ymgorffori teithio cynaliadwy o fewn y broses o wneud penderfyniadau gweithredol.

**EIN LLE:** Trwy hyrwyddo opsiynau trafnidiaeth carbon isel a lleihau'r ddibyniaeth ar deithiau gyrrwr yn unig, mae'r Cynllun hwn yn cyfrannu at wella ansawdd aer lleol, lleihau tagfeydd, a gwella cynaliadwyedd amgylcheddol y cymunedau y mae PCYDDS yn gweithredu ynddynt.

Mae’r Cynllun Teithio Cynaliadwy hwn wedi’i alinio’n agos â’r Cynllun Rheoli Carbon Sero Net a chynlluniau rheoli cynaliadwyedd ehangach, gan ffurfio rhan o fframwaith integredig i gyflawni amcanion cynaliadwyedd amgylcheddol y Brifysgol.

## 3. Adeiladu ar lwyddiannau'r gorffennol

Dros gyfnod y cynllun rheoli diwethaf, roedd gan PCYDDS nifer o gyflawniadau i'w helpu i leihau effaith ei theithio a'i thrafnidiaeth, sef y maes unigol mwyaf o allyriadau cwmpas 3. Dros y cyfnod diwethaf mae'r brifysgol wedi:

- Llofnodi Siarter Teithio Iach Bae Abertawe
- Llofnodi Siarter Teithio'n Iach Canolbarth a Gorllewin Cymru
- Gosod dros 40 o bwyntiau gwefru cerbydau trydan ar draws ei ystâd
- Gweithredu cynllun aberthu cyflog i staff ar gyfer cerbyd trydan
- Newid dros 65% o fflyd cerbydau masnach Ystadau i gerbydau trydan






## 4. Gosod y cyd-destun (arolwg teithio 2024 a 2025)

Bob mis Rhagfyr mae tîm cynaliadwyedd PCYDDS yn cynnal arolygon teithio ar wahân i staff a myfyrwyr. Ymatebodd dros 10% o staff i'r arolwg, roedd y nifer a gyfranogodd o blith y myfyrwyr yn is. Dyma rai pwyntiau allweddol a ddysgwyd ynglŷn â sut mae staff yn cymudo i'r campws:

- Yn Arolwg Staff 2025 tynnodd 90% o staff sylw at y ffaith bod teithio ecogyfeillgar naill ai'n bwysig iawn neu'n eithaf pwysig iddynt.
- Yn 2024, roedd 67% o staff yn cymudo i'r campws gan ddefnyddio car petrol neu ddiesel, gostyngiad o 10% ar arolwg 2023. Yn 2025 roedd hyn wedi gostwng i 49%.
- Roedd 10% o staff yn 2024 a 2025 yn cymudo gan ddefnyddio math o deithio llesol (cerdded/beicio)
- Roedd 8% yn teithio mewn car trydan neu hybrid
- Roedd 25% (y mwyafrif) yn teithio 5-10 milltir i'r gwaith
- Mae 89% o staff sy'n teithio mewn car yn gwneud hynny fel taith gyrrwr yn unig. Er y byddai 42% yn agored i ryw fath o raglen rhannu ceir.
- Amserlenni anghydnaws ac amseroedd y teithiau oedd y rhwystrau mwyaf i bobl rhag defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, sy'n debygol o fod yn gysylltiedig â natur wledig rhai campysau a bod 33% o'r ymatebwyr yn byw dros 20 milltir o'r gwaith.

Dim ond 0.29% o fyfyrwyr a ymatebodd i'r arolwg teithio myfyrwyr yn 2024. Dywedodd 53% o'r ymatebwyr eu bod wedi defnyddio cerbyd personol i gymudo i'r campws, cynnydd o 11% ar 2023. Roedd hysbysebu Fy Ngherdyn Teithio gan Drafnidiaeth Cymru, sy’n rhoi gostyngiadau ar gyfraddau teithio cyhoeddus, yn rhywbeth allweddol a ddysgwyd o'r arolwg myfyrwyr.

Y prif reswm a godwyd gan ymatebwyr ar gynyddu'r defnydd o ddulliau teithio llesol, ar ôl ystyried y pellter a deithiwyd, oedd diffyg cyfleusterau cawod, newid a storio addas.

## 5. Nodau

Mae newid patrymau yn y ffordd yr ydym yn teithio a sut rydym yn dylunio ein hamgylcheddau ar gyfer teithio wedi cyfrannu at ystod eang o faterion iechyd ac amgylcheddol, gan gynnwys ffyrdd o fyw eisteddog ac ansawdd aer gwael. Felly, mae annog symud i ffwrdd o ddefnyddio ceir preifat er mwyn cerdded, beicio a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn cynnig y potensial i ddod â manteision iechyd sylweddol, ar lefel unigol a chymdeithasol, yn ogystal â chefnogi'r angen i gymdeithas ddatgarboneiddio'n gyflym.

Mae'r Cynllun Rheoli Teithio Cynaliadwy yn amlinellu sut mae'r Brifysgol yn hwyluso ac yn hyrwyddo opsiynau cyfleus, carbon isel i staff, myfyrwyr a rhanddeiliaid eraill deithio i'n campysau a rhwng ein campysau.

Cefnogir y cyfeiriad strategol hwn gan yr amcanion canlynol:

- Darparu dewisiadau amgen deniadol yn lle teithiau car gyrrwr yn unig.
- Gwella llesiant staff a myfyrwyr trwy opsiynau teithio llesol diogel a chyfleus.
- Lleihau effaith teithio busnes.
- Parhau i gael staff a myfyrwyr i ystyried yr hierarchaeth deithio ar gyfer teithiau

Mae teithio a thrafnidiaeth y brifysgol, gan gynnwys cymudo, teithio busnes a gweithgareddau sy'n gysylltiedig â thrydydd partïon, wedi'i nodi fel agwedd amgylcheddol sylweddol. Mae hyn wedi'i amlygu oherwydd cyfraniad yr agwedd hon at newid hinsawdd a llygredd aer lleol. Yn ogystal â phryderon amgylcheddol, gall rheolaeth wael o ran teithio gael effeithiau andwyol ar lesiant a diogelwch unigolion.

## 6. Cyflawni amcanion

Mae PCYDDS yn cyhoeddi Cynllun Teithio sy'n manylu ar fesurau gweithredol sydd ar waith i gyflawni Amcanion Teithio a Thrafnidiaeth, gan gynnwys:

### Amcan 1: Darparu dewisiadau amgen deniadol yn lle teithiau car gyrrwr yn unig.

Mae teithiau car gyrrwr yn unig yn rhoi pwysau sylweddol ar draws y rhwydwaith trafnidiaeth, o'r rhwydwaith ffyrdd cenedlaethol i feysydd parcio’r brifysgol. Mae lleihau'r teithiau hyn yn helpu i leihau ein heffaith ar yr amgylchedd a gwella llesiant cyffredinol. Mae'r teithiau hyn yn cynnwys staff a myfyrwyr sy'n dod i'r campws yn ogystal â milltiredd ar gyfer busnes. Mae'r rhan fwyaf o bobl yn defnyddio'r car allan o gyfleustra neu arfer. Yr unig ffordd i symud pobl i ffwrdd oddi wrth hyn yw trwy wneud i ddewisiadau amgen yn lle defnyddio ceir ymddangos yn fwy deniadol a hygyrch i ddefnyddwyr.

Mae amrywiaeth o gyfleoedd i gyflawni hyn:

- Parhau â rheoli meysydd parcio a all gynnwys systemau trwyddedau, codi tâl a chyfyngu mynediad.
- Hyrwyddo rhannu ceir a rhoi blaenoriaeth i barcio i'r rhai sy'n rhannu eu car ag eraill.
- Sicrhau bod trafnidiaeth weithredol a chyhoeddus yn cael ei hyrwyddo a’i fod yn hygyrch.
- Gweithio i gael gwared ar y syniad bod parcio ceir yn 'hawl' a hyrwyddo'r syniad bod lleoedd parcio dim ond ar gyfer y rhai sydd eu hangen.
- Parhau â cheir cronfa trydan y cwmni fel bod gan staff nad ydynt yn gyrru i'r gwaith fynediad at gerbyd.
- Parhau i sybsideiddio gwefru cerbydau trydan ar gyfer staff a myfyrwyr i annog defnydd o Gerbydau Trydan.
- Ehangu'r defnydd o Gynlluniau Aberthu Cyflog ar gyfer Beiciau a cherbydau Trydan.
- Ymchwilio i ap teithio y gall staff a myfyrwyr ei ddefnyddio i nodi trafnidiaeth gyhoeddus a chyfleoedd rhannu ceir.
- Ymgysylltu â Thrafnidiaeth Cymru a gweithredwyr trafnidiaeth gyhoeddus eraill i ddarparu gostyngiadau i staff a myfyrwyr.
- Ymgysylltu â Chynllun Beiciau Trydan Dinas a Sir Abertawe a’i gefnogi ar draws safleoedd Abertawe
- Parhau i weithio gyda'r tîm Ystadau ar ehangu seilwaith gwefru cerbydau trydan

### Amcan 2: Gwella llesiant staff a myfyrwyr trwy opsiynau teithio llesol diogel a chyfleus.

Yr ateb gorau ar gyfer teithio yn ôl ac ymlaen i'r campws o ran yr amgylchedd a llesiant unigol yw teithio llesol. Mae hyn yn cynnwys teithio ar droed neu ar feic ac mae'n opsiwn dichonadwy i lawer. Yn seiliedig ar adborth o arolygon teithio PCYDDS 2024 a 2025, y prif resymau pam mae pobl yn osgoi trafnidiaeth lesol yw:

- Pryder am ddiogelwch personol, naill ai'n gysylltiedig â beicio neu gerdded ar eich pen eich hun.
- Yr angen i ddod ag offer trwm neu swmpus i'r safle.
- Pryderon am deithio ymlaen o'r campws, er enghraifft teithio rhwng campysau ar fyr rybudd.
- Lle storio diogel ar gyfer beiciau.
- Mynediad i gawodydd ar ôl taith hir ar y beic neu’n cerdded.
- Y pellter a deithir yn ôl ac ymlaen i'r gwaith

Cydnabyddir na fydd byth yn bosibl datrys y pryderon hyn i bob defnyddiwr, yn enwedig y rhai sydd â theithiau hir yn ôl ac ymlaen i'r safle. Mae'r cynllun teithio blynyddol yn ceisio darparu atebion deniadol i gynifer o ddefnyddwyr â phosibl.

## Amcan 3: Lleihau effaith teithio busnes.

Roedd allyriadau teithio busnes yn cyfrif am 2% o'n hallyriadau cyffredinol yn y flwyddyn academaidd waelodlin 2016/17. Tynnodd hyn sylw at bwysigrwydd adolygu teithio a gweithredu strategaethau lleihau fel y'u diffinnir yn y cynllun gweithredu teithio cynaliadwy.

Gyda datblygu systemau gweithio hybrid, mae'r brifysgol wedi rhoi blaenoriaeth i gydweithredu digidol a chyfarfodydd ar-lein fel y safon, gan leihau amlder gofynion teithio busnes rhwng campysau yn fawr.

Fel prifysgol aml-safle derbynnir y bydd angen i staff symud ar draws campysau yn ystod y diwrnod gwaith. I’r graddau y mae’n rhesymol ymarferol, dylai staff anelu at fabwysiadu dull 1 campws y dydd o weithio gan osgoi teithio rhwng y campysau yn ystod y dydd.


Y dull teithio a argymhellir gan y Brifysgol yw ar drên / bws neu gar cronfa trydan. Lle nad yw hyn yn bosibl, gall gweithwyr ddefnyddio eu ceir eu hunain ar gyfer teithiau busnes. Ar gyfer teithiau dros 160 milltir (neu sydd ar gyfartaledd yn fwy na 160 milltir y dydd lle bo cyfnodau hirach nag un diwrnod dan sylw), dylai staff flaenoriaethu defnyddio'r ceir cronfa trydan neu geir llogi. Dylid defnyddio'r opsiwn hwn fel arfer pryd bynnag y bo'n ymarferol yn hytrach na defnyddio car preifat. Mae hediadau ar gyfer teithio busnes i'w hosgoi lle bo opsiynau mwy cynaliadwy. Mae hyn yn orfodol ar gyfer yr holl deithiau ar dir mawr y DU.

Er mwyn helpu i gyflawni ein targedau, mae PCYDDS wedi partneru â Diversity Travel fel platfform archebu teithio cynaliadwy. Wrth archebu teithiau, bydd staff yn:


- Gweld opsiynau rheilffordd ochr yn ochr â hediadau
- Hidlo teithiau yn ôl allyriadau carbon
- Dangos yr allyriadau carbon ar gyfer pob rhan o'r daith
- Derbyn rhybudd wrth archebu hediadau domestig yn y DU neu o'r DU i Baris gydag awgrym i archebu teithio ar y trên.
- Derbyn dogfennau teithio digidol (nid papur)
- Cael yr opsiwn i wrthbwyso eu taith

Gosodwyd y gwaelodlin teithio busnes yn seiliedig ar gyfradd allyriadau 2016/17: 667 tCO2e gan mai hon oedd y flwyddyn oedd yn dangos cofnodi data teithio cyson a chywir. Yn unol â'r dull gweithio hybrid, rydym wedi gosod targed o 70% ar gyfer lleihau allyriadau teithio busnes erbyn 2027 o ran staff CALl o'r waelodlin.

Gan dynnu allan y blynyddoedd eithriadol 2020/2021 a 2021/2022 lle cafodd teithio busnes ei effeithio'n drwm oherwydd COVID-19, mae PCYDDS bellach yn cynnal gwerth allyriadau teithio busnes o dan 60% o'r allyriadau gwaelodlin.




## Amcan 4: Parhau i gael staff a myfyrwyr i ystyried yr hierarchaeth deithio ar gyfer teithiau



## 7. Targedau CAMPUS

Er mwyn rheoli'n rhagweithiol yr holl dargedau CAMPUS (Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol, Synhwyrol) ar gyfer Cynlluniau Rheoli sy'n gysylltiedig â Chynaliadwyedd, mae'r targedau sy'n ymwneud â'r cynllun hwn yn cael eu cadw yn y ddogfen "Targedau CAMPUS Cynaliadwyedd PCYDDS".

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys person cyfrifol, rhanddeiliaid, mecanwaith adrodd a chamau gweithredu ar gyfer pob blwyddyn o'r cynllun hwn. Mae'r targedau'n cyd-fynd â'r cynllun hwn a thargedau Datgarboneiddio a theithio llesol Sector Cyhoeddus Llywodraeth Cymru. Maent yn cynrychioli cymysgedd o newidiadau seilwaith ymarferol, newidiadau ymddygiadol a strategaethau ymgysylltu i sicrhau dull systematig o leihau allyriadau carbon.

Gellir dod o hyd i'r targedau yma:
https://uowtsd.sharepoint.com/teams/Sustainability_7fuztl_GRP/Shared%20Documents/General/Policy%20&%20Strategy/Strategy%202025-2030/UWTSD_SMART_Targets.xlsx

## 8. Monitro ac Adrodd

Bydd y Cynllun Rheoli Teithio Cynaliadwy'n cael ei gyflwyno gan Dîm Cynaliadwyedd PCYDDS mewn cydweithrediad ag adrannau academaidd, gwasanaethau proffesiynol, Undeb y Myfyrwyr a phartneriaid allanol.

Bydd monitro perfformiad yn dod o fewn y fframwaith llywodraethu a sefydlwyd o dan 'Flaenoriaeth Strategol 6: Monitro ac Adrodd' Strategaeth Cynaliadwyedd Amgylcheddol Grŵp PCYDDS.

Bydd y goruchwylio'n dilyn model sicrwydd tair llinell y Grŵp:

**Goruchwyliaeth Weithredol**

- Pennaeth Cynaliadwyedd a'r Amgylchedd
- Grŵp Llywio Cynaliadwyedd (SSG)
- Integreiddio i'r Cynllun Gweithredu Cynaliadwyedd
- Adroddiadau KPI blynyddol

**Goruchwyliaeth Lywodraethu**

- Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad
- Cyngor y Brifysgol

**Sicrwydd Allanol**

- System Reoli Amgylcheddol Lefel 5 y Ddraig Werdd
- Canlyniadau *People and Planet*
- Archwiliad allanol blynyddol

Bydd cynnydd yn cael ei:

- Adrodd yn flynyddol trwy Adroddiad Cynaliadwyedd PCYDDS
- Integreiddio i ddangosfyrddau Dangosyddion Perfformiad Allweddol (KPI) sefydliadol
- Alinio lle bo'n briodol â fframweithiau cydnabyddedig
- Cyflwyno yn yr arolwg teithio blynyddol

## 9. Cysylltiadau â pholisïau a gweithdrefnau eraill

Mae cyfres o gynlluniau rheoli Cynaliadwyedd wedi'u datblygu ar gyfer y cyfnod 2025-2030:

- Strategaeth Cynaliadwyedd Amgylcheddol y Grŵp 25-30
- Cynllun Rheoli Carbon 25-30
- Cynllun Gweithredu Ymgysylltu â Chynaliadwyedd 25-30
- Cynllun Adeiladu ac Adnewyddu Cynaliadwy 25-30
- Cynllun Rheoli Ynni 25-30
- Cynllun Rheoli Gwastraff 25-30
- Cynllun Rheoli Dŵr 25-30
- Cynllun Bwyd Cynaliadwy 25-30
- Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth 25-30

Awdur(on) y polisi:

**Dan Priddy** **Teitl Swydd:** Pennaeth Cynaliadwyedd a'r Amgylchedd.

Wedi'i gymeradwyo gan:

**Peter Mannion**

Prif Swyddog Gweithredu | Cadeirydd y Grŵp Llywio Cynaliadwyedd

**Dyddiad:** 01/06/2026

## Rheoli fersiynau’r ddogfen

| Rhif y Fersiwn: | Rheswm dros newid: | Awdur: | Dyddiad y newid: |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

Statws cyfredol y Polisi: cymeradwywyd

A yw'r Polisi yn berthnasol i**:** AU

Dyddiad cadarnhau: 01 / 06 / 2026

Dyddiad yn effeithiol o: 01 / 06 / 2026

Dyddiad adolygu polisi: 01 / 06 / 2027

I'w gyhoeddi**:** ar wefan PCYDDS

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David